# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)05-07 (p4): 11 Hydref 2007**

## Deiseb PO61(GR): Coal MTAN / Nodyn Cyngor Technegol Mwynau: Glo

### Diben

1. Ystyried y ddeiseb PO61(GR): "Coal MTAN" a phenderfynu sut y dylai'r Pwyllgor fynd ati i ymdrin â hi. 2. Yn ei gyfarfod ar 21Medi cyfeiriodd y Pwyllgor Deisebau 'r ddeiseb PO61(GR): "Coal MTAN "i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. 3. Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ystyried y ddeiseb a darparu cyngor pellach iddynt. Ceir copi o'r ddeiseb a'r llythyr a'r trawsgrifiad oddi wrth y Pwyllgor Deisebau yn Atodiadau 1 - 3.

### Nodyn Cyngor Technegol Mwynau : Glo

4. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) (2001) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas ag echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru. 5. Mae Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau yn rhoi cyngor manwl ar fecanwaith cyflwyno'r polisïau sydd yn MPPW a dylid darllen y rhain ar y cyd â'r Polisi. 6. Ym mis Ionawr 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ar ddrafft o Nodyn Cyngor Technegol Mwynau : Glo . Daeth yr ymgynghori i ben ar 28 Ebrill 2006. 7. Nodwyd polisïau'r Llywodraeth a chanllawiau cynllunio ar ddarparu glo cyn hyn yn Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Mwynau (MPG3) a gyhoeddwyd yn 1994 ar gyfer Cymru a Lloegr. Diddymwyd MPG 3 (1994), ac eithrio'r Atodiadau, gan MPPW. Bydd y "Coal MTAN "drafft yn diddymu'r atodiadau. 8. Mae'r ddeiseb y gofynnwyd i'r Pwyllgor ei hystyried yn galw am ragdybiaeth gref yn erbyn cloddio glo brig ac yn argymell lleiafswm pellter o 500 metr o bob cartref. 9. Mae'r "MTAN drafft" yn cyfeirio at gloddio glo brig ac yn dweud y dylai Awdurdodau Cynllunio Mwynau (MPAs): Ddangos eu strategaeth ar gyfer rheoli'r adnoddau glo yn gynaliadwy gan gyfeirio gweithfeydd glo o safleoedd sensitif a sicrhau lliniaru unrhyw effeithiau ar y gymuned neu'r amgylchedd. 10. Mae'r "MTAN drafft" yn cynnig parthau gwahanu o 200 metr a 350 metr o aneddiadau sy'n cynnwys mwy na 10 eiddo. 11. Fel ymateb i ffrwyth yr ymgynghori, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu mwy o ymchwil i'r berthynas rhwng adnoddau glo yng Nghymru a Chymunedau Cymru. Disgwylir y bydd adroddiad ar yr ymchwil yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2007. 12. Bydd fersiwn terfynol y "MTAN "yn cael ei gyhoeddi ar ôl ystyried yr adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghori yn nes ymlaen yn 2007.

### Argymhelliad

13. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y dull mwyaf priodol o drafod y ddeiseb i'r dyfodol yng ngoleuni'r wybodaeth uchod. Gwasanaeth y Pwyllgorau